

Gwasanaethau Rheoleiddio

Cynllun Dirprwyo Cynllunio

Mae swyddogaethau Cynllunio wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio trwy'r Cyngor (nid y Cabinet) o dan Ran 8 y Cyfansoddiad ym mharagraff 4.4.18 (1) y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ac o dan Rhan 3 Cyfrifoldeb am Weithrediadau – Tabl 1 Rhan A Swyddogaethau'n ymwneud â Chynllunio a Rheoli Gwlad a Thref.

1. Mae'r swyddogaethau a nodwyd yn y darpariaethau uchod wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio (sy'n gyfrifol am y tro am swyddogaethau Rheoli Datblygu'r Cyngor) a byddant yn cael eu gwneud ganddo neu unrhyw swyddog arall a awdurdodir ganddo OND yn amodol ar neilltuo'r materion canlynol i'r Pwyllgor Cynllunio:
 - 1.1 Ceisiadau cynllunio amlinellol a llawn ar gyfer datblygiadau mawr (fel y diffinnir ym mharagraff 2 isod) ac na ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Cynllunio.
 - 1.2 Os bu gwrthwynebiad i gais sy'n perthyn i un neu fwy o'r categorïau canlynol lle codwyd materion (ym marn y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio sy'n gyfrifol am reoli datblygu neu ei swyddog enwebedig) sydd o'r fath bwysigrwydd fel bod angen i'r Pwyllgor benderfynu yn eu cylch a lle mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.
 - (i) Argymhelliad clir gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Ymgymwrwr Dŵr neu Garthffosiaeth neu eu cynrychiolwyr, y Prif Swyddog Priffyrdd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel gweithredwr Priffyrdd, CCGC, CADW neu'r Heddlu i wrthod cais.
 - (ii) Mwy na 5 llythyr unigol yn gwrthwynebu ar sail cynllunio gan gymdogion / aelodau'r cyhoedd neu 4 llythyr unigol yn nodi sail gynllunio ynghyd â gwrthwynebiad gan Gyngor Cymuned.
 - (iii) Lle mae Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio wedi rhoi caniatâd i Aelod wneud cais ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i'r cais ymddangos yn y papurau gwybodaeth wythnosol sy'n darparu sail cynllunio gadarn pam fod angen i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ynghylch y cais.
- 1.3 Ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer datblygiad gan y Cyngor neu ddatblygiad ar dir y Cyngor (ar wahân i waith o fewn y briffordd sy'n ymwneud â mynediad).

- 1.4 Ceisiadau a gyflwynwyd gan swyddogion y Cyngor a gyflogir o fewn y swyddogaeth rheoli datblygu neu eu perthnasau agos ac mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.
 - 1.5 Ceisiadau a gyflwynwyd gan Prif Swyddogion o'r Cyngor neu eu perthnasau agos ac mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.
 - 1.6 Ceisiadau a gyflwynwyd gan Aelodau o'r Cyngor neu eu perthnasau agos ac mai argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd.
 - 1.7 Pob penderfyniad sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i ddefnyddio tir, dirymu neu addasu hawl neu ganiatâd a rhoi'r gorau i arddangos hysbyseb gyda chaniatâd tybiedig.
(Nodyn: mae adran 13 Tabl 1 Rhan 3 y Cyfansoddiad yn darparu ar gyfer pwerau tor parhad o dan adran 102 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'w gweithredu yn unig gan y Cyngor).
- 2.0 I bwrpas paragraff 2 uchod ystyr '**datblygiad mawr**' fydd:
"Datblygiad yn cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol-
- (a) mwyngloddio neu weithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer gwastraff mwynau;
 - (b) datblygu gwastraff;
 - (c) darparu anheddau lle bo: (i) nifer yr anheddau i'w darparu'n 10 neu fwy: neu (ii) y gwneir y datblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac na wyddys a yw'r datblygiad yn dod o fewn paragraff (c)(i);
 - (d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae arwynebedd llawr y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy: neu
 - (e) ddatblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy".